| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cabinet | Dyddiad: | 17 Ionawr 2018 |
| | | Rhif Union: | 01824712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 23 IONAWR 2018** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd fel un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2017 (copi'n amgaeedig).

**5 CYNNIG I SEFYDLU GRŴP CYNLLUNIO STRATEGOL** (Tudalennau 15 - 20)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Brian Jones, Aelod Arweiniol Cynllunio a Theithio Cynaliadwy (copi'n amgaeedig) yn amlinellu'r cynigion ar gyfer sefydlu Grŵp Cynllunio Strategol i arwain ar ddatblygiad disodliad Cynllun Datblygu Lleol.

**6 DARPARIAETH BAND B - RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF** (Tudalennau 21 - 32)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc (copi'n amgaeedig) ar gynnydd o ran Band B a'r Rhaglen Addysg Ysgolion yr 21ain Ganrif a goblygiadau'r ddarpariaeth.

**7 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2018/19** (Tudalennau 33 - 46)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i godi rhent blynyddol tai cyngor Sir Ddinbych ac i gymeradwyo'r Cyfrif Refeniw Tai a Chyllidebau Cyfalaf ar gyfer 2018/19 a'r Cynllun Busnes Stoc Dai.

**8 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL** (Tudalennau 47 - 56)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet ar gyfer prosiectau a nodwyd ar gyfer eu cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2018/19.

**9 CYLLIDEB 2018/19 – CYNIGION TERFYNOL** (Tudalennau 57 - 98)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn nodi goblygiadau Setliad Drafft Llywodraeth Leol 2018/19 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2018/19.

**10 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 99 - 110)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidebol a gytunwyd arni.

**11 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 111 - 114)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd wedi'i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem fusnes ganlynol yn cael ei thrafod oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 & 16, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**12 CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH – GWEITHDREFN GORCHYMYN PRYNU GORFODOL** (Tudalennau 115 - 130)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi'n amgaeedig) yn diweddaru'r Cabinet ar weithdrefn Gorchymyn Prynu Gorfodol.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned